**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD 27 EBRILL 2026**
19.00 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Glyn Griffiths, Siân Cwper, Cenwyn ap Thomas

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Beti Williams, June Jones

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 2 Mawrth 2026.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 2 Mawrth 2026

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Nia Povey

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Ynni Cymunedol

Cafwyd cyfarfod ar 20 Mawrth yn Y Ganolfan. Mynychodd amrywiol aelodau o'r gymuned. Rhoddodd Dafydd Watts eglurhad pellach o'r cynllun, ac fe gytunwyd mai'r cam nesaf fyddai cael trafodaeth efo Ymddiriedolaeth Brondanw er mwyn sicrhau y byddai ganddynt ddiddordeb mewn egwyddor i fod yn rhan o unrhyw gynllun drwy eu cynlluniau hydro.

### 5.2 Y Ganolfan

Cytunwyd i drafod Y Ganolfan yng nghyfarfod mis Mehefin, gan y bydd penderfyniad wedi ei wneud ar ddyfodol Ysgol y Garreg gan Gyngor Gwynedd erbyn hynny.

### 5.3 Goryrru Garreg, Llanfrothen a Gosod Cyflymder 20 m.y.a.

Cafwyd prisiau gan 5 darparwr posibl.

Cytunwyd i fynd am arwydd Westcotec, gan fod ganddo warant 6 blynedd a hwnnw yn un fyddai'n trwsio unrhyw ddiffyg ar y safle, yn hytrach na'i ddanfon yn ôl at y gwneuthurwr. Bydd yr arwydd wedi ei bweru efo solar.

Cytunwyd hefyd i dalu yn ychwanegol am yr opsiwn o fedru casglu data gyrru.

Gobeithir cael grant am yr arwydd drwy gronfa Gwynedd Ni Cyngor Gwynedd. Dyddiad cau ceisiadau yw 15 Mehefin 2026, ac fe ellir hawlio uchafswm o £5,500

**5.4 Mynwent Tan Lan**

Cytunodd Y Cynghorydd Nia Povey i ofyn i Dylan Edwards godi'r garreg fedd sydd ar ei hochr, a'i hail osod efo plinth dur di-staen.

**5.6 Cwrs Diffribliwyr**

Bydd y cwrs hyfforddi diffib yn cael ei gynnal yn Siop a Chaffi Llanfrothen am 6 yr hwyr nos Fawrth 31 Mawrth. St John's Ambulance fydd yn cynnal yr hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant am ddim ond bydd St John's yn ddiolchgar am gyfraniadau tuag at eu costau

**5.7 Afon Wern**

Cysylltodd Y Clerc â Chyfoeth Naturiol Cymru. Yr ateb oedd eu bod wrthi'n paratoi rhaglen torri chwyn ar gyfer eleni ar gyfer eu cyrsiau dwr. Bydd y gwaith yn cael ei flaenoriaethu ar siâl risg llifogydd a bydd yn rhaid cyflawni unrhyw waith o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Bydd y rhaglen waith yn cael ei chwblhau yn ystod yr haf pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn cadarnhad o'r gost gan eu contractwyr. Bydd hyn yn galluogi i Gyfoeth Naturiol Cymru benderfynu faint o waith fydd yn bosibl ei gyflawni o fewn y feiolyddion ariannol.

Bydd y darn o Afon Wern sydd yn achosi pryder i'r cyngor cymuned yn cael ei asesu fel rhan o'r broses. Os bydd y lleoliad yn bodloni'r trothwyon gofynnol o ran risg a blaenoriaeth, byd dyn cael ei ystyried i' gynnwys ar y rhaglen ar gyfer eleni.

Gefynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru unwaith eto i holi am ddiweddariad.

**5.8 Carafan Cilfan Tan Lan**

Mae'r garafán wedi ei symud i leoliad yn Nhremadog.

**6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Mawrth 2026 £559.04

**6.2** Cyflog Clerc Ebrill 2026 £559.04

**6.3** Yu Energy 9 Mawrth 2026 - £26.26

Yu Energy 27 Mawrth 2026 - £20.78

EDF Trydan 16 Ebrill 2026- £11.36

**6.4** Ad-dalu Glyn Griffiths, Clo Newydd Bocs Arian Croesor

**6.5** Aelodaeth Un Llais Cymru 2026/27 - £109.00

**6.6** Defnydd Menter Y Ring o'r Ganolfan - £78.00

**6.7** Derbyn taliad SumUp i'r banc 18 Chwefror 2026 - £9.74

**6.8** Derbyn taliad SumUp i'r banc 20 Chwefror 2026 - £7.79

**6.9** Derbyn taliad SumUp i'r banc 2 Mawrth 2026 - £11.69

**6.10** Derbyn taliad SumUp i'r banc 9 Mawrth 2026 - £1.95

**6.11** Derbyn taliad SumUp i'r banc 10 Mawrth 2026 - £0.97

**6.12** Derbyn taliad SumUp i'r banc 16 Mawrth 2026 - £14.61

**6.13** Derbyn taliad SumUp i'r banc 23 Mawrth 2026 - £26.29

**6.14** Derbyn taliad SumUp i'r banc 24 Mawrth 2026 - £4.87

**6.15** Derbyn taliad SumUp i'r banc 30 Mawrth 2026 - £14.62

**6.16** Derbyn taliad SumUp i'r banc 7 Ebrill 2026 - £27.27

**6.17** Derbyn taliad SumUp i'r banc 8 Ebrill 2026 - £9.74

**6.18** Derbyn taliad SumUp i'r banc 9 Ebrill 2026 - £6.82

**6.19** Derbyn taliad SumUp i'r banc 10 Ebrill 2026 - £3.90

**6.20** Derbyn taliad SumUp i'r banc 13 Ebrill 2026 - £14.61

**6.21** Derbyn taliad SumUp i'r banc 20 Ebrill 2026 - £26.30

**6.22** Derbyn taliad SumUp i'r banc 21 Ebrill 2026 - £18.51

**6.23** Balans yn y prif gyfrif 21 Ebrill 2026 £2,527.67

**6.24** Balans yn y cyfrif cadw 21 Ebrill 2026 £39,341.50

**7. Gohebiaeth**

- Cronfa Cymunedol Eryri

Mae Cronfeydd Cymunedol Eryri yn ail agor am geisiadau.

Bydd tair haen o gyllid ar gael.

Haen 1 - hyd at £500 - ar gyfer digwyddiadau lleol, gweithgareddau llesiant, a mentrau bach sy'n dod â chymunedau ynghyd.

Haen 2 - hyd at £5,000 - ar gyfer prosiectau sy'n gwella seilwaith cymunedol, ac yn ymateb i effaith twristiaeth

Haen 3 - £5,000-£25,000 - ar gyfer prosiectau cyfalaf mwy sy'n ymwneud a datgarboneiddio, mynediad i hamdden, gwelliannau amgylcheddol a datblygiadau cymunedol

Mae gan haen 3 ddyddiad cau penodol o 29/5/26.Nid oes dyddiad cau penodol ar gyfer y lleill.

Rhaid i bob prosiect ddangos effaith gadarnhaol ar gymunedau Eryri, ymrwymiad i'r Gymraeg, a lle bo'n berthnasol - caniatâd cynllunio a chynlluniau cynnal a chadw hirdymor.

## 8. Cynllunio

Dim

## 9. Materion Eraill

### 9.1 Adroddiad Blynyddol 2025/26

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2025/26

**Cynnig:** Glyn Griffiths

**Eilio:** Nia Povey

### 9.2 Llwybr Penrhyn i Garreg, Llanfrothen

Gofynnodd Y Cynghorydd Cenwyn ap Tomos am ddiweddariad ar y posibilrwydd o sefydlu llwybr cerdded rhwng Penrhyndeudraeth a Garreg, Llanfrothen.

Mynegodd y dylid ceisio grant er mwyn gwireddu'r cynllun, ac fe gytunodd i ystyried pwy fyddai'n addas i fedru ymchwilio am grant perthnasol.

### 9.3 Torri Coed A4085 Garreg i Benrhyndeudraeth

Mae coed yn tyfu i mewn i'r A4085 rhwng Garreg a Phenrhyndeudraeth.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Cyngor Gwynedd a gofyn i'r coed gael eu torri.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – 29 Mehefin 2026 am 7 yr hwyr**